**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO591

Anna Brychan
Deon Cynorthwyol
Canolfan Addysg yr Athrofa
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

a.brychan@uwtsd.ac.uk

18 Tachwedd 2025

Annwyl Anna

Diolch am y llythyr, a ddaeth i law ar 16 Medi, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ar waith y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol, sy'n cael ei gadeirio gennych chi.

Rwy'n falch iawn o weld canlyniadau cadarnhaol gan y Grŵp a'i weithgorau, ac rwy'n derbyn yr holl argymhellion a wnaed gennych, pan fo'r rhain yn argymhellion i Lywodraeth Cymru. Byddaf hefyd yn gofyn bod casgliadau ac argymhellion y Grŵp yn cael eu trafod gyda phartneriaid yng nghyfarfod nesaf Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion, fel y gall ein partneriaid hefyd gael cyfle i ymrwymo i weithredu'r argymhellion a'r meysydd ar gyfer gwaith pellach.

Nodwyd gennych hefyd bod newid canfyddadwy i'w weld yn niwylliant y Gyfarwyddiaeth Addysg wrth iddynt ystyried llwyth gwaith yn rheolaidd. Mae hyn wedi esblygu dros gyfnod gweithredol y Grŵp, ac rwy'n falch bod y newid diwylliant hwn ar waith ac yn cael ei gydnabod gan eraill. Mae eich argymhelliad y dylid defnyddio'r Asesiad Effaith Llwyth Gwaith fel gofyniad arferol ar gyfer pob maes polisi a fydd yn effeithio ar ysgolion cyn i'r newidiadau hynny gael eu cyflwyno yn cael ei dderbyn mewn egwyddor. Rwy'n benderfynol o gymhwyso'r fethodoleg hon i benderfyniadau'r portffolio Addysg a'i chymhwyso ar draws y llywodraeth, gan gynnwys sut y gallwn fod yn dryloyw o ran asesiadau. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried sut i sicrhau bod pawb yn cymhwyso'r fethodoleg hon wrth ymdrin â pholisïau y tu allan i'r portffolio Addysg.

Fe wnaethoch gyfeirio at ganlyniad allweddol mewn perthynas â'r gweithgor adrodd ac ymgysylltu sef y canllawiau "Egwyddorion Ymgysylltu Proffesiynol", gyda'r nod o gefnogi cydweithrediad cadarnhaol o fewn y gweithlu addysg. Rwy'n falch bod y ddogfen hon yn ganlyniad cydweithredu gofalus a chyfaddawdu rhwng partneriaid. Rwy'n cytuno â'ch argymhelliad y dylai'r Egwyddorion ar gyfer Ymgysylltu Proffesiynol gael eu mabwysiadu yn ffurfiol gan bawb, ac mae swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol gan bartneriaid cymdeithasol. Mae swyddogion hefyd yn cydweithio â Dysgu i edrych ar sut y gellir mabwysiadu hyn yn ei gwaith gyda'r proffesiwn, gan gynnwys mewn perthynas â'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid. Byddaf yn ysgrifennu at

Gyfarwyddwyr Addysg i argymell eu bod yn mabwysiadu'r canllawiau ac yn eu lledaenu ymhellach. Bydd y canllawiau hyn i'w gweld hefyd yn Dysg ac yn yr adran llwyth gwaith a lles ar Hwb.

Mae'r gostyngiad sylweddol yn y gofynion adrodd mewn perthynas â grantiau Llywodraeth Cymru yn gyflawniad pwysig ac rwy'n falch bod hyn wedi cael ei groesawu. Caiff adolygiad rheolaidd ei wneud fel rhan o'r gwaith o adolygu, ystyried a gosod telerau ac amodau'r grant blynyddol a bydd hyn yn parhau i gadw pwysau i lawr ar ysgolion i leihau gofynion adrodd biwrocrataidd.

Rwyf wedi nodi eich argymhelliad ynglŷn â Rheolwyr Busnes Ysgolion, ac rwy'n falch o weld bod y grŵp newydd hwn wedi'i sefydlu. Rwy'n derbyn eich argymhelliad y dylid cynnal y grŵp wrth i newidiadau i fodelau cyllido gael eu datblygu ac wrth i effaith y cynllun peilot a'i botensial i gefnogi'r system ysgolion ehangach, gael eu deall. Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg.


Rwy'n cytuno â'ch pwynt mai un o ganlyniadau mwyaf gwerthfawr y Grŵp oedd rôl arwain y rhanddeiliaid eu hunain, sefydlu ffyrdd effeithiol o weithio a phenderfyniad i wneud gwahaniaeth ar lefel ysgol. Rwy'n nodi bod yr ystod eang o bartneriaid a oedd yn rhan o hyn wedi bod yn fodel effeithiol i sicrhau bod safbwyntiau ac arbenigedd yn cael eu cynnwys ac rwy'n derbyn eich argymhelliad bod y ffyrdd hyn o weithio yn cael eu mabwysiadu a'u datblygu ymhellach wrth i waith y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg fynd rhagddo, gan ein bod yn awyddus i gynnal y momentwm yn y maes hwn.

Rwy'n falch o'r effaith gadarnhaol y mae'r camau hyn wedi'u cael ar lwyth gwaith arweinwyr ysgolion, ond rwy'n rhannu eich pryder am y diffyg newid amlwg mewn ystafelloedd dosbarth. Mae hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg a bydd angen i ni ystyried sut y gallwn weithio gyda phartneriaid mewn ffordd strwythuredig debyg i fynd i'r afael â phryderon llwyth gwaith gweithlu ehangach yr ysgol.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi bod yn edrych ar faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw athrawon. Mae llawer o dystiolaeth wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor am lwyth gwaith gormodol a'r rhan allweddol y mae'n ei chwarae wrth recriwtio a chadw athrawon. Roeddwn yn falch iawn o allu cyfeirio at waith y Grŵp a'ch argymhellion mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Bydd y diweddariad rydych chi wedi'i ddarparu yn rhoi sylfaen gadarn i barhau i fynd i'r afael â llwyth gwaith o dan y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Diolch am eich ymrwymiad a'ch gwaith wrth gadeirio'r Grŵp dros y 18 mis diwethaf a phob dymuniad da i chi wrth symud ymlaen.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education